# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Rhaglen Lluosi yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Er mwyn i chi dderbyn cefnogaeth gan weithrediad a ariennir gan Y Gronfa Ffyniant Gyffredin mae'n ofynnol i ni gasglu gwybodaeth gennych chi. Mae pob maes yn orfodol oni nodir yn wahanol.

Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei storio a'i defnyddio yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

O dan y GDPR mae gennych hawl i gael mynediad at y data y mae Lluosi yn ei gadw arnoch chi ac i gywiro'r wybodaeth yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Am fwy o fanylion am yr uchod, ewch i [www.bridgend.gov.uk/cy/](www.bridgend.gov.uk/cy/)

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi sut y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio a phwy fydd yn cael mynediad ati.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei hanfon at Lywodraeth y DU ac mewn rhai achosion at bartïon sy'n gweithio ar eu rhan a'u defnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- Cyflawni gofynion adrodd Llywodraeth y DU ar gyfer gweithrediadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Monitro ac adrodd ar nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithrediadau a nifer y bobl o wahanol grwpiau sy'n cael eu cefnogi (e.e. oedrannau, rhywedd ac ethnigrwydd gwahanol).
- Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus eraill i ymgymryd â chyllid, cynllunio, monitro ac arolygu dysgu ac i gynhyrchu cyhoeddiadau ystadegol.
- Gan sefydliadau ymchwil cymdeithasol cymeradwy i gynnal ymchwil, dadansoddi a monitro cyfle cyfartal.
- At ddibenion archwilio / gwirio gan Lywodraeth y DU.
- I gysylltu eich data o'r ffurflen hon â ffynonellau data eraill at ddibenion gwerthuso'r effaith y mae'r ymgyrch wedi'i chael ar y bobl a gymerodd ran.
- I rannu eich data rhwng Partneriaid Darparu Lluosi i hwyluso trosglwyddo cyfranogwyr yn ystod amser yr unigolion ar y prosiect.

Bydd sefydliadau ymchwil yn cysylltu â sampl o unigolion yn unig. Os cysylltir â chi i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwil / gwerthusiad am eich profiad ar y rhaglen, bydd pwrpas y cyfweliad neu'r arolwg yn cael ei egluro i chi a rhoddir yr opsiwn i chi ddweud ie neu na i gymryd rhan.

Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio at ddibenion ymchwil cymeradwy yn unig ac yn unol â GDPR.

Bydd y sefydliadau ymchwil yn dileu eich manylion cyswllt unwaith y bydd yr ymchwil gymeradwy hon wedi'i chwblhau.